# COFNODION CYFARFOD MISOL CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Tachwedd 13eg, 2019 am saith o'r gloch

**PRESENNOL**

Angharad Correia-Martins, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd

**YMDDIHEURIADAU**

O. Hefin Roberts (Cadeirydd) – cyfarfod llywodraethwyr; G. Ian Evans (Is-gadeirydd), Wyn Griffiths, Alun Jones (aros am lawdriniaeth), Edward O. Griffith (gwyliau), Catherine Ll. Morris (gwyliau), Erfyl W. Roberts, William B. Williams, Cynghorwyr Dewi W. Roberts a John B. Hughes (Cyngor Gwynedd – Sylwebwyr)

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cyng. Robert M. Jones, gan mai ef fu yn y Gadair ddiwethaf o'r rhai a oedd yn bresennol.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Cynghorydd Dylan Llwyd fuddiant yng nghais cynllunio C19/0996/39/LL – Ail-leoli saith carafán sefydlog ac ymestyn y safle er gwneud gwaith tirlunio a gwelliannau amgylcheddol – The Warren, Aber-soch, gan fod ganddo berthynas yn gweithio yno.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Hydref 9fed, 2019 yn gywir.

3. **EITEMAU BRYS (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Ni dderbyniwyd dim.

4. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Anfonwyd sylwadau ar y ceisiadau a ganlyn cyn cyfarfod heno:

C19/0730/39/LL **Cais Diwygiedig –** Cais i gadw adeiladau/strwythuron yn gysylltiedig â defnydd y safle fel caffi/iard storio cychod – Mickey's Boatyard, Marchros, Bwlchtocyn **- Deil y Cyngor wrthwynebu'r cais gwreiddiol a'r cynlluniau diwygiedig oherwydd y rhesymau a godwyd yn flaenorol, ynghyd â bod yn orddatblygiad o'r safle. Anghytunir â'r hyn a nodir yn y cais presennol nad yw'r datblygiad yn amlwg o'r Llwybr Arfordir er enghraifft - fe'i gwelir o bob man.**

**Pryderir am y cynnydd yn y parcio mewn maes bychan ac ar y ffordd gul sydd ddigon peryglus ar y gorau, ond yn arbennig am y diffyg toiledau oherwydd fe'i defnyddir fel caffi erbyn hyn yn hytrach nag un i werthu bwyd i'w gario allan. Yn ogystal, derbynnir cwynion a gwrthwynebiadau di-ri oddi wrth drigolion lleol, yn bennaf oherwydd yr arogleuon coginio a effeithia ar eu tai o ganlyniad i symud lleoliad y gegin, a'r gweithgareddau/digwyddiadau a gynhelir ar y safle ar benwythnosau yn ystod y tymor gwyliau**

C19/0793/39/LL Cwt glan môr newydd **–** Cwt Glan Môr 36, Borth Fawr, Aber-soch - **Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn orddatblygiad o'r safle a bod y cwt newydd yn fwy na'r gwreiddiol**

C19/0885/39/LL Ymestyn teras bwyty – Porters Cove, Stryd Fawr, Aber-soch - **Cefnogir, oherwydd nad yw'n amharu ar neb**

C19/0963/39/LL Diwygio Amod 2 ar Ganiatâd C18/0715/39/LL er cynnwys modurdy a phorth car tanddaearol – 68 Cae Du, Aber-soch – **Cefnogir**

C19/0964/39/LL Cwt glan y môr newydd – Cwt Glan Môr Rhif 5, Borth Fawr, Aber-soch – **Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn fwy na'r gwreiddiol ac mae'r decing yn rhy fawr**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C19/0996/39/LL Ail-leoli saith carafán sefydlog ac ymestyn y safle er gwneud gwaith tirlunio a gwelliannau amgylcheddol - The Warren, Aber-soch **– Cefnogir ar yr amod eu bod o fewn polisi ac nad yw'n ymestyn y safle**

C19/1001/39/LL Newidiadau i flaen siop, gan gynnwys newid drws, gosod ffenestri newydd mewn agoriad a fu gynt mewn defnydd a newidiadau i ffenestr bresennol - Cyn-fanc NatWest, Aber-soch **– Cefnogir**

C19/1005/39/LL Dymchwel cwt glan môr presennol a chodi un newydd â dec – Cwt Glan Môr, Traeth Marchros, Bwlchtocyn **– Cefnogir ar yr amod ei fod yr un maint â'r gwreiddiol**

C19/1023/39/LL Codi decing dyrchafedig ar wahân – 2 Parc y Brenin, Cilan **– Cefnogir**

C19/1046/39/LL Estyniad deulawr – Tyddyn, Aber-soch **– Cefnogir**

5. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

i) ***Ymestyn Oriau Agor y Giatiau***
Ni lwyddodd y swyddog gael trafodaeth bellach â'r gofalwr ond, os na fydd yn fodlon â'r oriau ychwanegol ceisia chwilio am rywun arall.

ii) ***E-on – Gosod 'Smart Meter' yn y Toiledau***
Cysylltodd swyddog o E-on i ddweud y daw peiriannydd i osod 'smart meter' fore Mercher, Rhagfyr 11eg oherwydd amcangyfrifiad yw'r anfonebau ar hyn o bryd.

b) **Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd – Mickey's Boatyard, Marchros**
Ar wahân i drafod y cais cynllunio diwygiedig (gweler uchod) a derbyn ychwaneg o gwynion, ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

c) **Hunan*iaith* – Hyrwyddo'r Gymraeg yn Aber-soch**
Cafwyd ymateb da i'r bore coffi a drefnwyd yn Neuadd Aber-soch ar Hydref 15fed, diwrnod Shw' Mae Su' Mae, i sgwrsio â dysgwyr – ffilmiwyd eitem ar gyfer Heno y noson honno hefyd. Dosbarthodd rhai o aelodau Merched y Wawr, disgyblion Ysgol Aber-soch a'r Clerc y pecynnau Cymraeg mewn Busnes o amgylch y siopau yn y prynhawn a chafwyd ymateb da gan bawb ar wahân i un siop.
Derbyniwyd copi drafft o'r cynllun gweithredu – fe'i derbyniwyd.

ch) **Cyfoeth Naturiol Cymru – Cytundeb Torri'r Foel**
i) Ni dderbyniwyd ad-daliad y llynedd hyd yma a gofynnwyd am anfoneb eleni cyn gynted â phosibl hefyd – cysylltwyd â'r contractwr yn y gobaith y cyrhaeddai cyn heno ond, ni wnaeth.
ii) Ni dderbyniwyd ateb i'r ymholiad am ganiatâd ffensio rhan o'r Foel ar gyfer pori oddi wrth y swyddog. Yn yr un modd, ni dderbyniwyd cais ysgrifenedig a chynllun o'r bwriad er gwybodaeth a thrafodaeth bellach oddi wrth yr ymholwr.

d) **14. Gohebiaeth: ch) Mabon ap Gwynfor – Sefydlu Canolfan Diagnosis Cancr yng Ngwynedd**
Derbyniwyd e-bost oddi wrth yr uchod yn diolch i'r Cyngor am ei gymorth – llwyddwyd cael 23 o bobl i lofnodi'r llythyr agored o ganlyniad i'w anfon ymlaen at eraill.

6. **MYNWENT**

a) **Prisiau Claddu Newydd**
Ni lwyddwyd trefnu cyfarfod o'r Is-bwyllgor i drafod yr uchod.

b) **Yr Hen Fynwent**
Cysylltodd Cadeirydd yr Henaduriaeth i gynnig yr hen fynwent i'r Cyngor. Eglurodd, hefyd, nad yw'n cyfarfod tan ddiwedd y mis a dyna pam na dderbyniwyd ateb i'r llythyr a anfonwyd parthed y maes parcio. Cysylltir i drefnu cyfarfod i'w drafod ymhellach.

7. **CAEAU CHWARAE**

a) **Offer Newydd – Amcanbrisiau Goliau**
Daethpwyd o hyd i'r gôl a oedd ar goll yng Nghae Chwarae Mynytho – angen newid eu lleoliad. Archebir y peipiau i wneud y goliau newydd yn Aber-soch.

b) **Paentio'r Offer a Lloches Bws Parciau, Mynytho**
Penderfynwyd gofyn i baentiwr arall wneud y gwaith.

c) **Mainc Solar**
Cysylltwyd ag un o gynghorwyr Llangernyw (Ann, Dwyfor Villa gynt) ac anfonodd luniau o fainc Llanfair Talhaearn yn hytrach na'r un yno – bwriedir

ei symud i safle gwell ddechrau'r flwyddyn. E-bostiwyd Clerc Cyngor Cymuned Llanfair Talhaearn i holi faint o ddefnydd ac ati a wneir o'r un yno ond, ni dderbyniwyd ateb hyd yma.

ch) **Coeden ger Cae Chwarae Aber-soch**
Derbyniwyd e-bost a lluniau o'r goeden *monterrey* oddi wrth drigolion eiddo gerllaw yn mynegi pryder am ei chyflwr ac y disgynnodd cangen bydredig yn ddiweddar. Fe'i haseswyd gan yr arbenigwr coed yn 2014 a nododd ei bod mewn cyflwr da bryd hynny. Holir hefyd pwy yw perchennog swyddogol y ffordd.

8. **CYFRIFON**

a) **Llif Arian, Asesiad Risg, Arbrawf Rheolaeth Ariannol Fewnol**
Oherwydd nad oedd Cyngor llawn penderfynwyd gohirio'r uchod tan gyfarfod mis Rhagfyr.

b) **Cyllideb 2020 – 2021**
Oherwydd nad oedd Cyngor llawn penderfynwyd gohirio'r uchod tan gyfarfod mis Rhagfyr.

c) **Cydnabyddiaeth Ariannol 2020 – 2021**
Derbyniwyd copi drafft o Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – angen sylwadau erbyn Rhagfyr 10fed. Penderfynwyd, fel y gwnaed yn y blynyddoedd diwethaf, na fwriada'r Aelodau dderbyn unrhyw gydnabyddiaeth ac y datganir hynny drwy gyflwyno'r ffurflen briodol i'r Clerc.

ch) **Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2021**
Ni dderbyniwyd gwybodaeth am darged y gronfa leol eto – bydd angen ystyried unrhyw gyfraniad yn y gyllideb (A144) a'r praesept.

9. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned/Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth**
Unwaith yn rhagor ni dderbyniwyd ateb oddi wrth y Swyddogion Cynllunio.

b) **Cytiau Glan y Môr**
Yr un cofnod â'r uchod – ni dderbyniwyd ateb oddi wrth y Swyddogion Cynllunio nac Arweinydd y Cyngor fel yr addawodd ym mis Mehefin.

10. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Materion yn y Gymuned – Llinellau Melyn ar Allt Marchros**
Derbyniwyd ateb yn holi pa ochr a ddymunir eu gosod. Mynegwyd mai'r Gwasanaeth Traffig ddylai wneud hynny ond, awgrymwyd y dylid eu gosod ar y ddwy ochr gan fod y ffordd yn gul.

b) **Gwrych Islwyn, Lôn Engan, Aber-soch**
Penderfynwyd ysgrifennu at berchnogion yr uchod i ofyn iddynt dorri'r gwrych, gan ei fod yn bochio allan i'r ffordd cyn cysylltu â'r Adran Briffyrdd.

c) **Cau Lôn Garmon, Aber-soch**
Fe'i caewyd ar Dachwedd 6ed.

11. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) **Torri'r Llwybrau**

- Derbyniwyd e-bost oddi wrth Dewi Wyn Owen, Uwch Reolwr Hawliau Tramwy, yn nodi y cwblhawyd y gwaith fwy neu lai ar lwybr Rhif 29 (Bodlondeb i Rhianfa) – roedd yn rhy wlyb yng nghae uchaf Bodlondeb. Torrir y tyfiant ger y giât fochyn i alluogi pobl gerdded y llwybr os ydynt yn barod i fynd trwy'r mwd a baw; trafodir hyn â'r perchennog maes o law.
- O ran trefnu cyfarfod i drafod y llwybrau, gofynna am ddau neu dri o ddyddiadau yn y mis nesaf, gan y disgwylia alwad am lawdriniaeth.

12. **TRAETHAU**

a) **Padlfyrddio ar Borth Fawr**
Derbyniwyd copi o ohebiaeth rhwng y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, a pherchennog Abersoch Watersports i gadw padlfyrddau mewn cynhwysydd ar y traeth – gwrthwyneba'r Swyddog; penderfynwyd y byddai'n creu cynsail i eraill.

13. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

| | |
|---|---|
| C18/1079/39/AM | Cais amlinellol i godi tŷ a chreu mynedfa gerbydol (Cynllun Diwygiedig o Ganiatâd 8810B) **–** Plot ger Arwelfa, Lôn Traeth, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau** |
| C19/0435/39/CR | Codi estyniad ar gefn tŷ annedd **–** Gorphwysfa, Llanengan – **Caniatawyd ag amodau** |
| C19/0598/39/LL | Diwygio Amod 2 ar Ganiatâd Cynllunio C15/0341/39/LL er gwneud y gwaith yn unol â chynlluniau diwygiedig sy'n cynnwys cloddio rhan o graig a chodi uchder y llwyfan glanio rhyw fetr, ynghyd â chyflwyno manylion i ryddhau Amodau 3 (Adroddid CARHA) a 5 (lliw'r llithrfa) **–** Ynys Sant Tudwal (Gorllewin), Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau** |
| C19/0755/39/LL | Estyniad cefn ac ochr **–** Cadlan, Lôn Rhoslyn, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau** |
| C19/0770/39/LL | Estyniad unllawr ochr a ffenestr gromen gefn **–** 15 Cae Pin, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau** |
| C19/0793/39/LL | Cwt glan y môr newydd **–** 36 Borth Fawr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau** |
| C19/0816/39/LL | Sied bren unllawr yng nghefn yr annedd – 4 Cae Du, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau** |
| C19/0807/39/LL | Adeiladu sied storio amaethyddol **–** Tir ger Berthwen, Bwlchtocyn – **Gwrthodwyd** |
| C19/0831/39/LL | Cyfnewid adeiladwaith siale bresennol am adeilad un newydd – Pendraw, Bwlchtocyn **– Caniatawyd ag amodau** |
| C19/0857/39/LL | Dymchwel byngalo ac adeilad allanol presennol ac adeiladu annedd deulawr newydd a phagoda (pafiliwn) â thirlunio |

| | |
|---|---|
| | cysylltiedig, parcio, mynedfa safle newydd a storfa bin - Palmyra, Lôn Golff, Aber-soch **- Caniatawyd ag amodau** |
| C19/0885/39/LL | Ymestyn teras bwyty **–** Porters Cove, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau** |
| C19/0929/39/DA | Diwygiad ansylweddol i Ganiatâd C19/0024/39/LL er gosod byrddau cladio llwyd ar y ffenestri gromen yn hytrach na rendr **–** 16 Lôn Cernyw, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau** |
| C19/1003/39/DA | Cais am ddiwygiad ansylweddol i Ganiatâd Cynllunio C05D/0220/39/LL er mwyn newid dau o'r tai a ganiatawyd o fod yn ddeulawr i unllawr **–** Bryn Hedd, Mynytho – **Gwrthodwyd oherwydd bod angen cais cynllunio llawn** |

14. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Adroddiad Cyfarfod Grŵp Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr***
Copi o'r uchod, er gwybodaeth.

ii) ***Deall Lleoedd yng Nghymru***
Gwybodaeth am yr uchod – gwefan ddwyieithog sy'n cyflwyno data am fwy na 300 o drefi a chymunedau yng Nghymru ar ffurf sy'n hygyrch a hawdd ei ddefnyddio.

iii) ***Ymgynghoriadau Cynllunio***
Rhestr o rai sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru.

iv) ***Democratiaeth Llywodraeth Leol – Gwahoddiad i Weithdy***
Gwahoddiad i'r uchod – fe'i cynhelir yn Venue, Llandudno, ar Dachwedd 19eg.

v) ***Bwletin mis Hydref***
Copi, er gwybodaeth.

vi) ***Canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch y ddyletswydd dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a gohebiaethau arall yn ymwneud â hi***
Copi o'r uchod ac adroddiad o weithdy a gynhaliwyd yn ddiweddar; angen gweithredu a llunio polisi/cynllun.

vii) ***Newid a gynigir i Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018***
Copi, er gwybodaeth.

b) **A.J. Vehicle Solutions – Plwg Chargjio Ceir Trydan**
Gwybodaeth am yr uchod – penderfynwyd ei anfon ymlaen at Bwyllgor Neuadd Aber-soch.

c) **Clwb Moduro Harlech – Rali Trenholme, Tachwedd 22-23ain, 2019**
Hysbyseb o'r uchod, er gwybodaeth.

ch) **Robin Road – Ap Cymunedol**
Gwybodaeth am yr uchod – penderfynwyd nad yw'r Cyngor ei angen.

d) **Capel Newydd**
Gwybodaeth y daethpwyd o hyd i allwedd yr uchod ac y cynhelir cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr ar Dachwedd 20fed.

15. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

**Taliadau**
Cadarnhawyd talu cyflog mis Tachwedd (Rh/S 002254) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Cyngor Gwynedd – £270.00 (Rh/S 002251 – Archwiliad Mewnol 2018 – 2019)
b) Cyngor Gwynedd – £10,000.00 (Rh/S 002252 – Cyfraniad at Gynnal Toiledau'r Gymuned)
c) Casglwr Trethi – £5.61 (Rh/S 002253 – Talu Wrth Ennill)
ch) J.A. Pozzi – £2496.00 (Rh/S 002255 – Torri Gwellt Cae Chwarae Aber-soch a Choed yr Allt a Llwybrau Cyhoeddus Mynytho)

**Derbyniadau**
a) Toiledau – £36.90 (Tâl Mynediad – £6.80, £9.50, £14.50, £6.10)
b) G.D. Roberts a'i Fab – £370.00 (Bedd Newydd a Chladdu Llwch)
c) Cyngor Gwynedd – £2438.00 (Ad-daliad Torri Llwybrau'r Gymuned)

16. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Rhagfyr 11eg, 2019 am saith o'r gloch